**Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig** **ARD 02-02(min)**

**Cofnodion**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 23 Ionawr 2002 |
| **Amser:** | 2.00pm hyd 4.50pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

Yn bresennol

| | |
|---|---|
| *Aelodau* | |
| Glyn Davies, Cadeirydd | Canol a Gorllewin Cymru |
| Mick Bates | Sir Drefaldwyn |
| Ron Davies | Caerffili |
| Delyth Evans | Canol a Gorllewin Cymru |
| Carwyn Jones | Pen-y-bont ar Ogwr |
| Elin Jones | Ceredigion |
| Peter Rogers | Gogledd Cymru |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |
| *Ymddiheuriadau* | |
| Jocelyn Davies | Dwyrain De Cymru |
| John Griffiths | Dwyrain Casnewydd |
| *Yn bresennol* | |
| Yr Athro Mike Tedd (eitem 3) | |
| Tim Fletcher (eitem 4) | Cyngor Sir Powys |
| Jeremy Wright (eitem 4) | Cyngor Sir Powys |
| *Swyddogion (eitem 2)* | |
| Huw Brodie | Cyfarwyddwr, Yr Adran Amaethyddiaeth |
| Rory O'Sullivan | Yr Is-adran Polisi Amaethyddiaeth a Physgodfeydd |
| Mike Dunn | Yr Is-adran Datblygu Bwyd a Ffermio |
| Jasper Roberts | Yr Is-adran Polisi Gwledig |
| Jim Norrie | Yr Is-adran Iechyd Anifeiliaid |
| *Ysgrifenyddiaeth* | |
| Adrian Crompton | Clerc Pwyllgor |
| Menna Williams | Cynorthwy-ydd Pwyllgor |

**Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, cyfnewidiadau a datganiadau o fudd**

1.1 Datganodd y Cadeirydd fod iddo fudd fel partner mewn busnes ffermio. Dywedodd Peter Rogers ei fod yn ffermwr, a dywedodd Mick Bates ei fod yn bartner mewn busnes ffermio.

1.2 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan John Griffiths a Jocelyn Davies.

1.3 Eglurodd y Cadeirydd y byddai rhaglen waith y Pwyllgor hyd at y Pasg yn canolbwyntio ar gwblhau'r adolygiad o TGCh mewn ardaloedd gwledig ac archwilio'r modd y deliodd y Gweinidog â chlwy'r traed a'r genau. Yr oedd yn bwysig bod yr Aelodau'n nodi eu blaenoriaethau ar gyfer tymor yr haf gan fod y rhaglen yn llenwi'n barod. Cadarnhawyd y byddai pwnc hela llwynogod ar dir y Comisiwn Coedwigaeth yn cael ei drafod yn adroddiad y Gweinidog yn y dyfodol.

**Eitem 2: Adroddiad y Gweinidog -** ARD 02-02(p1)

*Diwydiant Cig Cymru*

2.1 Mynegwyd cefnogaeth i'r egwyddor o gyfuno'r gwaith o farchnata a hyrwyddo cig o Gymru. Fodd bynnag, mynegwyd nifer o bryderon:

- Gallai'r uno arfaethedig roi dyfodol Hybu Cig Oen ac Eidion Cymru fel corff unigol gyda rôl a oedd wedi ei diffinio'n glir yn y fantol;

- Yr oedd y cyfnod ymgynghori'n fyr;
- Gallai aelodau Hybu Cig Oen ac Eidion Cymru ddewis peidio â thalu'r tanysgrifiadau a oedd bellach yn ddyledus.

2.2 Mewn ymateb i hyn eglurodd y Gweinidog y rhagwelid y byddai'r corff newydd yn un cwmni gyda 3 phartner cyfartal. Byddai pob un yn cadw'i hunaniaeth a'r hawl i dynnu'n ôl pe dymunai. Byddai manylion ynghylch sut yn union y byddai'r cwmni'n gweithio a sut y dyrennid y cyfrifoldebau'n cael eu cwblhau yn dilyn yr ymgynghoriad. Gan y byddai Hybu Cig Oen ac Eidion Cymru'n dal i fod â'i hunaniaeth a'i rôl ei hun nid oedd unrhyw reswm pam na ddylai aelodau dalu eu tanysgrifiadau. Yr oedd y cyfnod ymgynghori'n gymharol fyr gan mai dim ond â'r prif fuddianwyr y byddid yn cysylltu, ac yr oeddent hwy'n debygol o allu ymateb yn gyflym. Byddai'r ddogfen ymgynghorol yn cael ei chyhoeddi yn ddiweddarach yn yr wythnos a byddai'r Pwyllgor yn cael cyfle i drafod y mater yn llawnach yn ei gyfarfod nesaf.

*Mewnforio cig*

2.3 Croesawodd yr aelodau y cyhoeddiad fod y DU yn rhydd o glwy'r traed a'r genau ond mynegwyd pryder ynghylch cryfder y rheolyddion a oedd yn bodoli er mwyn atal cig heintiedig rhag cael ei

fewnforio’n anghyfreithlon.

2.4 Dywedodd y Gweinidog ei fod wedi codi’r mater yn ysgrifenedig gyda’r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ac yng nghyfarfod diwethaf Gweinidogion Amaeth y DU. Hoffai weld gorfodaeth lymach ym mhorthladdoedd mewnforio’r DU, rheolyddion ar lefel yr UE er mwyn lleihau’r risg o fewnforio’n anghyfreithlon a’r UE yn helpu gwledydd y trydydd byd lle’r oedd clwy’r traed a’r genau’n rhemp. Tollau Tramor a Chartref ei Mawrhydi oedd yn gyfrifol am archwilio cynwysyddion a oedd yn dod i mewn i’r wlad. Nid oedd y Cynulliad yn cael ei gynrychioli ar y grwp rhyngadrannol a sefydlwyd i ystyried camau eraill y gellid eu cymryd er mwyn cyfyngu ar fewnforion anghyfreithlon gan nad oedd ganddo gyfrifoldeb uniongyrchol yn y maes hwn. Cytunodd y Gweinidog, fodd bynnag, i gyflwyno papur ar waith y Grwp mewn cyfarfod yn y dyfodol. Dywedodd y Gweinidog y byddai’n darparu manylion yn y cyfarfod nesaf ynghylch y cosbau y gellid eu pennu mewn achosion o fewnforio cig wedi ei heintio â BSE yn anghyfreithlon.

*Cynllun Adfywio Gwledig*

2.5 Gofynnwyd i’r Gweinidog egluro meini prawf y Cynllun ar gyfer cymorthdaliadau o ystyried bod ceisiadau fel yr un a wnaethpwyd gan Wyl Jazz Aberhonddu wedi eu gwrthod.

2.6 Nododd y Pwyllgor fod dwy brif ffynhonnell ariannol i helpu busnesau a digwyddiadau – y Grant Arbennig a weinyddid gan awdurdodau lleol a chronfa arall a oedd yn cael ei rheoli gan yr Awdurdod Datblygu. Cytunodd y Gweinidog i ddarparu manylion am gais Gwyl Jazz Aberhonddu yn y cyfarfod nesaf er mwyn i’r Aelodau allu ystyried y meini prawf a ddefnyddid yn gyffredinol. Cadarnhaodd y Gweinidog fod y ffigyrau yn ei adroddiad, a oedd yn dangos bod £28 miliwn wedi ei wario hyd yn hyn, yn cynnwys yr £21 miliwn a drosglwyddwyd i awdurdodau lleol fel Grant Arbennig. Cytunodd y Gweinidog i ddarparu ffigyrau mwy cyfredol ynghylch yr arian a ddefnyddiwyd o gronfeydd y Cynllun Adfywio Gwledig mewn Adroddiad yn y dyfodol.

*Fforwm Coedwigoedd*

2.7 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu manylion i’r Pwyllgor ynghylch aelodaeth y pum gweithgor a sefydlwyd yng nghyfarfod cyntaf y Fforwm. Byddai Cadeiryddion y gweithgorau’n cyfarfod yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod eu gweithgareddau’n gydlynol.

*Gwenwyno bywyd gwyllt*

2.8 Gofynnwyd i’r Gweinidog egluro’r data a ddarparwyd ynghylch achosion o wenwyno. Gwyddid bod adroddiadau am nifer o achosion lle cafodd hebogiaid tramor eu gwenwyno ond nid oedd yn ymddangos bod yr achosion hyn wedi eu cynnwys yn y tabl. Cytunodd y Gweinidog y byddai’n cael eglurhad o’r ffigyrau ac y byddai, os yn bosibl, yn darparu manylion am yr achosion yr adroddwyd amdanynt ond na chawsant eu hymchwilio.

*Trefniadau cig oen yr UE*

2.9 Nododd y Pwyllgor ei bod yn ofynnol i'r Cynulliad sicrhau bod Rheoliad Cyngor yr UE EC2529/2001 yn rhan o'i i ddeddfau domestig, yn fwyaf arbennig er mwyn dechrau gweithredu'r amlen genedlaethol yng Nghymru. Byddai'r gwaith o ddrafftio deddfwriaeth eilaidd y Cynulliad yn ystyried cynlluniau i ymgynghori ynghylch cynllun yr amlen genedlaethol gyda'r prif ddiwydiannau sydd â diddordeb.

*Deddfwriaeth eilaidd*

2.10 Croesawodd yr aelodau'r wybodaeth a ddarparwyd ar ddeddfwriaeth a fyddai'n dod i rym yn y dyfodol. Cytunodd y Cadeirydd i ystyried sut y gallai'r Pwyllgor ymwneud mwy ag archwilio'r polisi y mae deddfwriaeth eilaidd yn seiliedig arno ac adrodd yn ôl i'r cyfarfod nesaf.

*Materion eraill*

2.11 Holwyd y Gweinidog a fyddai ef yn cyfrannu tuag at ymchwiliad Senedd Ewrop i glwy'r traed a'r genau. Dywedodd mai mater i'r senedd oedd hwn ac nad oedd unrhyw un wedi cysylltu ag ef ynghylch y mater eto. Nodwyd y gallai archwiliad y Pwyllgor ei hun o'r modd yr ymdriniodd y Gweinidog â chlwy'r traed a'r genau yng Nghymru gyflenwi gwybodaeth i Senedd Ewrop.

2.12 Cododd yr Aelodau hefyd y mater o ganolfannau casglu dynodedig ar gyfer anifeiliaid i'w hallforio ac adennill taliadau a wnaed i ffermwr ar Ynys Môn.

2.13 Pwysleisiodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau fod angen iddynt ei hysbysu ef neu'r Clerc os oeddent yn awyddus i holi'r Gweinidog ynghylch unrhyw fater. Os nad oedd materion yn cael sylw yn adroddiad ysgrifenedig y Gweinidog, neu os nad oedd rhybudd wedi ei roi ymlaen llaw, nid oedd yn rhesymol disgwyl i'r Gweinidog ymateb mewn Pwyllgor.

**Camau gweithredu**

Adroddiad y Gweinidog yn y dyfodol i gynnwys adroddiad am y cynnydd a oedd wedi ei wneud gyda gwaith y pwyllgor rhyngadrannol a sefydlwyd er mwyn ystyried rheolyddion mewnforio cig – **Gweinidog, Yr Is-adran Iechyd Anifeiliaid**

Adroddiad y Gweinidog yn y cyfarfod nesaf i gynnwys manylion am gosbau y gellid eu pennu pe delid rhywrai'n mewnforio cig a allai fod wedi ei heintio â BSE yn anghyfreithlon - **Gweinidog, Yr Is-adran Iechyd Anifeiliaid**

Adroddiad y Gweinidog yn y dyfodol i ddarparu ffigyrau wedi eu diweddaru, pan fyddent ar gael, ynghylch y defnydd o gronfeydd y Cynllun Adfywio Gwledig - **Gweinidog, Yr Is-adran Polisi Gwledig**

Adroddiad y Gweinidog yn y cyfarfod nesaf i gynnwys manylion am gais Gwyl Jazz Aberhonddu am arian gan y Cynllun Adfywio Gwledig a'r rhesymau dros wrthod y cais - **Gweinidog, Yr Is-adran Polisi Gwledig**

Manylion am aelodaeth y Fforwm Coedwigoedd i'w dosbarthu i Aelodau'r Pwyllgor - **Gweinidog, Y Comisiwn Coedwigaeth**

Eglurhad o'r ffigyrau ar blaladdwyr anghyfreithlon a gwenwyno bywyd gwyllt i'w ddarparu yn adroddiad y Gweinidog er mwyn darparu gwybodaeth am achosion y rhoddwyd gwybod amdanynt ond na chawsant eu hymchwilio - **Gweinidog, Yr Is-adran Datblygu Bwyd a Ffermio**

Y Cadeirydd i gyflwyno cynigion i'r Pwyllgor yn nodi sut y gallai'r Pwyllgor chwarae rhan fwy gweithredol wrth ystyried deddfwriaeth eilaidd - **Cadeirydd, Ysgrifenyddiaeth**

**Eitem 3: Adolygiad o TGCh mewn ardaloedd gwledig**

3.1 Amlinellodd yr Athro Mike Tedd y prif negeseuon y teimlai y dylai'r Pwyllgor eu hystyried yn ei adolygiad:

- Mae TGCh yn bwysig i Gymru wledig;
- Mae cysylltiad agos erbyn rhwng cyfrifiaduro a thelathrebu;
- Mae'r rhwydweithiau telathrebu yng Nghymru wledig mewn gwirionedd yn well na'r disgwyl;
- Ond mae angen eu gwella o hyd, ac mae angen mwy o fynediad i gyfleusterau datblygedig megis band llydan. Mae cefnogaeth o gronfeydd cyhoeddus yn hanfodol;

- Ni ellir newid y sefyllfa â geiriau hud. Mae angen rhoi sylw i ddwy ochr y farchnad:
  - Materion yn ymwneud â'r galw (codi ymwybyddiaeth, datblygu sgiliau, dod â'r galw at ei gilydd)
  - Materion yn ymwneud â chyflenwi (gwella'r rhwydwaith, defnyddio ADSL er mwyn cyfnewid gwybodaeth, radio dros dir a drwy loeren).

- Mae'r Awdurdod Datblygu'n datblygu strategaeth synhwyrol ar gyfer band llydan yng Nghymru, ac yn rhoi sylw i nifer o'r materion hyn;
- Mae angen annog BT i fuddsoddi yng Nghymru wledig. Mae'n bwysig cadw materion cyfanwerthu ac adwerthu ar wahân;
- Mae cynrychiolaeth ranbarthol ar y corff rheoli newydd, OFCOM, yn hanfodol.

Codwyd y pwyntiau isod yn y drafodaeth:

3.2 Yr oedd y rhwydwaith dysgu gydol oes a gyflwynwyd yn ddiweddar yn gam pwysig a defnyddiol o safbwynt dod â'r galw at ei gilydd, ac yn cynnig safleoedd lle gellid defnyddio band llydan ym mhob awdurdod lleol.

3.3 Yr oedd BT yn darparu cysylltiadau cyflym i bob cyfnewidfa leol yng Nghymru. Yr hyn oedd yn dal i beri anhawster, o safbwynt defnydd ehangach, oedd y cysylltiad o gyfnewidfeydd i leoliadau unigol, ynghyd â materion yn ymwneud â pholisi prisio BT. Yn fwyaf arbennig, yr oedd prisiau adwerthu BT hyd at ddeg gwaith cymaint â'r prisiau cyfanwerthu. Teimlai'r Athro Tedd y dylid annog BT i rannu cyfrifyddiaeth eu busnesau adwerthu a chyfanwerthu er mwyn gwneud y sefyllfa'n gliriach.

3.4 Yr oedd codi ymwybyddiaeth o fanteision TGCh yn broses araf. Teimlai'r Athro Tedd fod annog ymwybyddiaeth mewn mannau penodol, drwy deleganolfannau, er enghraifft, yn ffordd effeithiol o ysgogi eraill.

3.5 Yr oedd darpariaeth lloeren yn ddelfrydol ar gyfer lleoliadau anghysbell. Fodd bynnag, yr oedd y costau'n rhwystr yn aml gan fod yr adnoddau a oedd ar gael ar hyn o bryd er mwyn darparu gwasanaethau penodedig wedi eu teilwrio'n arbennig drwy loeren yn brin iawn.

3.6 Yr oedd maint y farchnad yng Nghymru wledig yn golygu nad oedd yn debygol y gwelid llawer o gystadleuaeth yn y gwaith o ddarparu isadeiledd. Yr oedd yr Athro Tedd o blaid annog a rheoli darparwyr isadeiledd unigol. Pan fyddai'r rhwydwaith wedi ei sefydlu, byddai cystadleuaeth i ddarparu gwasanaeth yn dilyn.

3.7 Yr oedd y nifer a oedd yn tanysgrifio i ADSL yn y deg tref wledig a oedd yn cael eu rhwydweithio drwy'r prosiect Llwybr-Pathway yn argoeli'n dda. Yr oedd y nifer oddeutu 60% o'r hyn a welid mewn ardaloedd trefol yn Lloegr ar yr un adeg yn natblygiad y prosiect ac yr oedd yn cynyddu hyd at 20% bob mis.

3.8 Yr oedd cais sylweddol am arian Amcan 1 ar gyfer gwella rhwydweithiau yn debygol o gael ei gyflwyno. Ond yr oedd angen gwelliant tebyg yn holl ardaloedd gwledig Cymru ac mewn ardaloedd nad oeddent yn ardaloedd Amcan 1.

3.9 Disgwylid Mesur yn ddiweddarach yn y flwyddyn i sefydlu corff rheolaethol newydd, OFCOM yn lle OFTEL. Dywedodd yr Athro Tedd nad oedd cynrychiolaeth ranbarthol ar y corff newydd yn debygol o fod yn rhan o'r Mesur ond y dylai'r Cynulliad geisio annog hyn er mwyn sicrhau bod materion telathrebu rhanbarthol yn cael ystyriaeth briodol.

**Eitem 4: Adolygiad o TGCh mewn ardaloedd gwledig**

4.1 Rhoddodd Tim Fletcher anerchiad i'r Pwyllgor ar y cynllun teleganolfannau ym Mhowys. Mae testun ei gyflwyniad wedi ei gynnwys yn Atodiad ????

4.2 Yn ystod y drafodaeth, pwysleisiodd Tim Fletcher fod angen i asiantaethau cyhoeddus gydnabod gwerth prosiectau fel y teleganolfannau mewn ardaloedd gwledig. Drwy eu defnyddio hwy fel canolbwynt gweithgaredd TGCh a manteisio ar eu potensial fel pwyntiau mynediad, gellid sicrhau nad

yw’r gwaith o ddarparu gwasanaethau yn y sector cyhoeddus yn cael ei ddyblygu.

4.3 Yr oedd y gefnogaeth ariannol yr oedd ar brosiectau TGCh lleol ei hangen yn aml yn gymharol fechan. Yn aml iawn nid oeddent yn addas ar gyfer cronfeydd strwythurol Ewropeaidd gan nad oedd ganddynt yr arbenigedd yr oedd ei angen er mwyn gwneud cais, ac nid oedd yr amodau llym a’r dyddiadau terfynol yr oedd eu hangen yn addas ar eu cyfer. Yn hytrach, yr oedd ar brosiectau cefn gwlad megis teleganolfannau angen arian hyblyg, tymor hir er mwyn i brosiectau allu datblygu ar eu cyflymder eu hunain ac i’r cynhwysiant lleol gael ei adeiladu’n araf. Nid oedd eu natur anffurfiol a di-strwythur yn aml yn cyd-fynd â’r cyfyngiadau ariannol a oedd yn ofynnol gan asiantaethau cyhoeddus. Yr oedd yr aelodau’n sylweddoli bod angen arian hyblyg ar raddfa fach ar gyfer prosiectau o’r math hwn a dymunent weld hyn yn cael ei adlewyrchu yn adroddiad y Pwyllgor. Awgrymodd Jeremy Wright mai’r awdurdodau lleol oedd y corff addasaf i roi cynnig ar ddull gweithredu o’r fath.

**Eitem 5: Cofnodion y cyfarfod blaenorol** - ARD 01-01(min)

5.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Ionawr.

**Ysgrifenyddiaeth** **Ionawr 2002**